OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2427 (Cy.197)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*6 Medi 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*7 Medi 2009*
Yn dod i rym - -	*28 Medi 2009*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy gan adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**), a chyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau penodol at ddarpariaethau mewn offerynnau Cymunedol gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y darpariaethau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2009. Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 28 Medi 2009.

Diwygio

2. Yn rheoliad 2 (Dehongli) o Reoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008 yn lle'r diffiniad o "samplau rheoli swyddogol" rhodder y diffiniad canlynol—

> "ystyr "samplau rheoli swyddogol" ("*official control samples*") yw samplau a gymerir gan Weinidogion Cymru o dan unrhyw un o'r canlynol—
>
> (a) pwynt 2.1.2.2 o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1003/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr

(**1**) 1973 p.51.
(**2**) 1972 p.68; mewnosodwyd paragraff 1A gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).